Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# GORCHMYNION PYSGODFEYDD UNIGOL A GORCHMYNION RHEOLEIDDIO

## Y Cynllun Rheoli sydd ei angen i ategu cais am orchymyn pysgodfa o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio o dan Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 (“Deddf 1967”) ddarparu digon o wybodaeth am eu gweithrediadau arfaethedig i alluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu a ddylid gwrthod y cais neu lunio Gorchymyn drafft i'w gyhoeddi.

Nodir y prif fanylion sydd eu hangen gan Weinidogion Cymru yn yr Atodlen i Reoliadau Pysgodfeydd Unigol a Physgodfeydd a Reoleiddir (Ffurflen Gais) 1987 ("Rheoliadau 1987").

Wrth wneud cais i Weinidogion Cymru am orchymyn pysgodfa bydd angen ichi gwblhau:

1. Y ffurflen gais yn yr Atodlen i Ddeddf 1987, sydd ar gael yma: ffurflen gais Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol a Rheoleiddio;

2. Ffurflen Wybodaeth i ategu'r ffurflen gais;

3. Cynllun Rheoli drafft.

Yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967, byddai Gorchymyn Pysgodfa Unigol yn rhoi hawl i bysgodfa unigol fagu’r rhywogaeth a enwir yn y Gorchymyn am gyfnod a bennir yn y Gorchymyn.  Byddai Gorchymyn Rheoleiddio’n rhoi’r hawl i ddeiliad y gorchymyn osod rheoliadau a chyfyngiadau dros yr ardal a bennir am gyfnod a bennir yn y Gorchymyn.

Amcan y Cynllun Rheoli drafft hwn yw dangos sut y byddwch yn rheoli gweithgarwch dyframaethu yn yr ardal a ddiffinnir yn y cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol neu Reoleiddio.

Rhaid ichi gwblhau'r holl adrannau perthnasol, gan sicrhau eich bod yn rhoi ateb llawn i bob cwestiwn, ac yn rhoi gwybodaeth ychwanegol a fydd, yn eich barn chi, yn ategu eich cais.

Os bydd yn rhaid inni ofyn ichi am ragor o wybodaeth, bydd yn cymryd mwy o amser i brosesu eich cais.

Rhaid ichi anfon eich ffurflen gais orffenedig a'r ffurflen wybodaeth a'r cynllun rheoli drafft ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol at marineandfisheries@gov.wales.

Os ydych yn cyflwyno copi caled, anfonwch ef at:

Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

## Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad y Newid | Blaenlythrennau'r Awdur |
|---|---|---|
| 1 | 1 Mehefin 2021 | MB |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

# Manylion yr Ymgeisydd

**Math o Fusnes**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Unig Berchennog** | ☐ | **Partneriaeth** | ☐ |
| **Cwmni Cyfyngedig** | ☐ | **Cwmni Cydweithredol** | ☐ |

| | |
|---|---|
| **Enw'r Busnes** | |
| **Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post) y dylid anfon gohebiaeth ato** | |
| **Enw Cyswllt** | |
| **Rhif Ffôn** | |
| **Cyfeiriad E-bost** | |

**Ar gyfer Cwmnïau Cyfyngedig**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cofrestru'r Cwmni** | |
| **Rhif Cofrestru** | |
| **Cyfeiriad (gan gynnwys y cod post) y Cwmni Cofrestredig** | |

**Pwysig**

- Os yw'r ymgeisydd yn gwmni a ymgorfforwyd o dan y Deddfau Cwmnïau, dylid cyflwyno'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu ynghyd ag unrhyw Benderfyniad Arbennig wedi'i gofrestru gan y cwmni.

- Os yw'r ymgeisydd yn gorff a ymgorfforwyd mewn unrhyw ffordd arall, dylid darparu'r offeryn ymgorffori.

**Am ba fath o Orchymyn Pysgodfa rydych yn gwneud cais:**

| | | |
|---|---|---|
| Gorchymyn Pysgodfa Unigol | Ydw | Nac ydw |
| Gorchymyn Rheoleiddio | Ydw | Nac ydw |
| Gorchymyn Hybrid | Ydw | Nac ydw |

**Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau Rhan 1.**

Os ydych yn gwneud cais am Orchymyn Pysgodfa Unigol, cwblhewch Ran 2.

Os ydych yn gwneud cais am Orchymyn Rheoleiddio, cwblhewch Ran 3.

Os ydych yn gwneud cais am Orchymyn Hybrid, cwblhewch Rannau 2 a 3.

## Rhan 1 – Cefndir

### Ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Unigol neu Orchymyn Rheoleiddio

Dylech gynnwys trosolwg o'r bysgodfa, gan gynnwys:

- Amcanion a nodau rheoli
- Gwybodaeth gefndir
- Disgrifiad daearyddol o'r bysgodfa, gan gynnwys map.

## Rhan 2 – Gorchmynion Pysgodfeydd Unigol

Dangoswch sut y byddwch yn rheoli'r dyframaethu yn yr ardal dan sylw, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng dyframaethu ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- Rheoli'r rhywogaethau sy'n cael eu dyframaethu.
- Sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng dyframaethu a defnyddwyr eraill y dŵr.
- Sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng dyframaethu a bioddiogelwch.
- Os ydych yn gweithredu o dan drefniant prydlesu:
    - Y broses ymgeisio am brydles

  - Dyrannu prydles y gwely
  - Amodau ar y prydlesydd

- Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhanddeiliaid.
- Gwerthuso a Monitro Amcanion y Cynllun.

## Rhan 3 – Gorchmynion Rheoleiddio

Dangoswch sut y byddwch yn rheoli'r dyframaethu yn yr ardal dan sylw, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Asesu'r Stoc a Chyfanswm y Ddalfa a Ganiateir (TAC)
  - Sut mae arolygon asesu'r stoc yn cael eu cynnal a sut mae'r Ddalfa a Ganiateir yn cael ei chyfrif i sicrhau cynaliadwyedd gan gynnwys y modelau bwydo adar sy'n gysylltiedig â Safleoedd Morol Ewrop.
- Cyd-destun Deddfwriaethol:
  - Y cyd-destun deddfwriaethol y mae'r bysgodfa yn gweithio ynddo ynghyd â'r cyfyngiadau a'r rheoliadau ar gynaeafu a mathau o gêr.
- Cyfyngiadau a Rheoliadau ar Gynaeafu:
  - Maint glanio lleiaf/mwyaf a'r rhesymau.
  - Tymhorau agor a chau'r gwelyau.
  - Dull cynaeafu.
- Iechyd a Diogelwch:
  - Mesurau i sicrhau iechyd a diogelwch y casglwyr, defnyddwyr eraill a'r cyhoedd.
  - Unrhyw fesurau diogelu bwyd neu drefniadau profi perthnasol.
- Trwyddedau:
  - Gwybodaeth berthnasol am drwyddedu gan gynnwys pwy sy'n gymwys, newydd-ddyfodiaid, amodau'r drwydded a ffioedd.
- Gorfodi a Bioddiogelwch:
  - Disgrifiad o weithgareddau rheoleiddio a gorfodi, ynghyd â'r troseddau perthnasol.
  - Mesurau a rheolau bioddiogelwch ynghylch gosod grawn cregyn gleision.
  - Categoreiddio'r gwely

- Ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid.
- Gwerthuso a monitro amcanion y cynllun.

## Rhan 4 – Datganiad

Drwy lofnodi isod rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir.

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras)** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

**Anfonwch y cynllun rheoli at Lywodraeth Cymru yn marineandfisheries@llyw.cymru**

**Os ydych yn cyflwyno copi caled, anfonwch ef at:**

**Llywodraeth Cymru**
**Is-adran y Môr a Physgodfeydd**
**Rhodfa Padarn**
**Llanbadarn Fawr**
**Aberystwyth**
**SY23 3UR**

**I'w gwblhau gan Lywodraeth Cymru:**

Dyddiad derbyn:

Anfonwyd cydnabyddiaeth: